PAM DDIODDEFODD IESU A MARW?

Nodyn i'r siaradwr:
Gan ddefnyddio'r Ysgrythurau'n grefftus helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi arwyddocâd dod Iesu i'r ddaear, ei ddioddef, a'i farw ar y stanc. Eglurwch mai darpariaeth gariadus Duw a Christ ydi'r pridwerth, a dangos budd a lles hyn oll yn arbennig i'r rhai newydd

MAE'CH DYFODOL YN DIBYNNU AR WYBODAETH GYWIR AM IESU (5 mun.)

Un egwan, anwrol, athrist, a'i ben wedi'i eurgylchu, ydi fel mae byd celf a chrefft crefyddol yn darlunio Iesu (*g*98 12/8 5-6)

O edrych yn fanwl ar yr Ysgrythurau fe welwn mai un egnïol, gwrywaidd, llawen oedd Iesu ac yn bendant nid un ffugsanctaidd (Marc 6:3; Luc 2:52; Ioan 2:14-16; Actau 2:26-28)

Fel mae celf a chrefft crefyddol yn gamarweiniol, felly hefyd mwyafrif y dysgeidiaethau crefyddol ynglŷn â phwy oedd Iesu a pham y dioddefodd a marw

Er mwyn cael hyd i wybodaeth gywir am Iesu, mae'n rhaid inni droi at ffynhonnell ddibynadwy, Gair Duw (Luc 1:1-3; 1Thes 2:13; 2Pedr 1:16; "presenoldeb," *Y Beibl Cyssegr-Lan,* 1908, troednodyn)

Mae'r wybodaeth am Iesu sydd yn y Beibl yn anhepgor gan mai dim ond hynny all arwain at ddyfodol hapus a bywyd tragwyddol (Ioan 17:3)

Yng Ngair Duw cawn atebion i gwestiynau pwysig, megis: Pwy oedd Iesu? Pam cafodd ei erlid? Pwy oedd yn gyfrifol am ei ddioddefaint a'i farwolaeth? Beth ydi'r cysylltiad oll-bwysig rhwng ei farwolaeth a'n perthynas ni â Duw a'n gobaith am fywyd?

YR HYN YN WIR OEDD IESU (5 mun.)

'Roedd Iesu'n gwybod pwy ydoedd ac o ble y daeth

Fe soniodd sawl gwaith am ei fodolaeth cynddynol (Ioan 3:13; 6:38, 62; 8:23, 42, 58; 17:5)

Cyn creu angylion a bodau dynol, fe greodd Duw Iesu ar ffurf ysbryd (Dat 3:14)

Felly, Mab Duw ydoedd, cyntafanedig yr holl greadigaeth (Col 1:15-17)

Trwyddo ef creodd Duw bopeth arall, gan gynnwys y ddaear a'r bodau dynol cyntaf, Adda ac Efa

Ar yr amser penodedig, fe drosglwyddodd Jehofah fywyd ei Fab nefol i groth Mair, gwyryf o Iddewes (Luc 1:30, 31, 34, 35; Gal 4:4)

Ganwyd Iesu'n fod dynol perffaith heb bechod (*it*-2 56)

Ac yntau tua 30 mlwydd oed, fe gafodd ei eneinio â'r ysbryd sanctaidd yn Fab ysbrydol-anedig Duw ar y ddaear yn ogystal â bod y Meseia addawedig (Math 3:16, 17; Luc 3:23; Ioan 4:25, 26)

PAM DDIODDEFODD IESU (15 mun.)

'Roedd Iesu'n gwybod y byddai cwrs duwiol ei fyw yn golygu cael ei erlid ac yna ei ladd (Math 16:21)

Fe ragfynegwyd mai ef fyddai'r un i ddioddef yr elyniaeth sy'n cael ei ddisgrifio'n symbolaidd yn Genesis 3:15

Dioddefodd Iesu am iddo gefnogi penarglwyddiaeth Jehofah er gwaethaf holl ymdrechion Satan i danseilio uniondeb Iesu (*cl* 144)

Mewn modd ddramatig derfynol fe roddodd Iesu daw unwaith ac am byth ar yr holl ddadleuon ynglŷn ag uniondeb gweision Jehofah (Heb 7:26; *w*91 2/15 14-15)

Er yr holl elyniaeth filain oedd yn cael ei anelu ato, fe gyflawnodd Iesu ei aseiniad gydag urddas, gostyngeiddrwydd a hunan-ddisgyblaeth a hynny oherwydd ei fod yn caru Jehofah yn angerddol (1Pedr 2:22, 23)

Gallodd brofi mai un celwyddog diegwyddor ydi Satan; yn wir gorchfygodd fyd dan reolaeth Satan (Ioan 16:33)

'Roedd dioddefiadau Iesu hefyd yn ei berffeithio i wasanaethu yn Archoffeiriad i'r ddynoliaeth (Heb 2:10, 18; 4:15)

'Roedd pobl yn ei gasáu am ei fod yn dweud y gwirionedd am Dduw ac am nad oedd yn perthyn i'r byd (Ioan 7:7; 8:40; 15:18, 19; 17:16)

Dysgodd Iesu ufudd-dod drwy'r hyn a ddioddefodd (Heb 5:8)

Wrth farw gallodd ddweud yn fuddugoliaethus: "Gorffennwyd." ["Mae'r cyfan yn awr wedi ei gyflawni." *Y Fforddd Newydd*] (Ioan 19:30)

BU FARW IESU ER MWYN GOGONEDDU DUW AC ACHUB DYN (15 mun.)

Nid am weithredu'n anwir y bu farw Iesu, ond oherwydd iddo gyhoeddi'r gwirionedd a gogoneddu Duw Jehofah (Ioan 8:46, 47; 17:4)

Ei ddymuniad pennaf oedd sancteiddio enw Duw (Math 6:9; Ioan 12:27, 28)

Oherwydd iddo aros yn ffyddlon i Dduw, fe allodd Iesu roi'r dystiolaeth gadarnaf dros hawl gyfreithiol Jehofah i Benarglwyddiaeth y bydysawd (Job 1:6-12; 2:2-6; Dat 3:14)

Yn ystod cyfnod byr ei weinidogaeth, 'roedd cariad Iesu at bobl yn amlwg wrth iddo'u dysgu nhw am Deyrnas Dduw ac wrth iddo iacháu'r rhai oedd yn dioddef (Math. 4:23)

Gweithred mwyaf ei gariad at bobl oedd rhoi ei fywyd o'i wirfodd yn bridwerth dros y ddynoliaeth [Darllen 1 Timotheus 2:5, 6] (Ioan 15:13; *w*95 6/15 14-15)

"Pridwerth cyfatebol" [1Timotheus 2:6, *NW*] oedd hyn; hynny yw, roedd ei fywyd perffaith yn *cyfateb* i'r dim i'r bywyd perffaith a gollodd Adda iddo'i hun a'i ddisgynyddion pan bechodd (Rhuf 5:12, 18, 19; *w*99 2/15 13-18; *cl* 141-3)

Fyddai Iesu ddim wedi bod yn bridwerth *cyfatebol* petai e'n Dduw neu'n uniad o Dduw a dyn

Profodd Iesu farwolaeth dros bob dyn (Heb 2:9, 17)

Fe ddarparwyd y pridwerth ar gyfer pawb ar y ddaear (1Ioan 2:2)

Os ydym fel unigolion i gael budd ohono, rhaid inni weithredu ffydd yn y trefniant rhyfeddol a chariadus hwn [Darllen Ioan 3:16, 18, 36]

Wrth inni dderbyn y pridwerth ac ufuddhau i ddysgeidiaeth Iesu, yn hytrach na phrofi digofaint Duw, cawn dderbyn Ei ffafr

YMDDIRIEDWCH YNG NGAIR DUW, A CHANLYN IESU I'R BYWYD (5 mun.)

Mae'r Ysgrythurau Sanctaidd yn rhoi darlun cywir o Iesu inni gan ei ddisgrifio fel un "yn llawn gras ["cariad anhaeddiannol," *NW*] a gwirionedd" (Ioan 1:14)

Maen' nhw'n cadarnhau i Iesu gael ei atgyfodi o blith y meirw ac iddo ddod yn "Awdur Bywyd" (Actau 3:15; 1Cor 15:3-8)

Ef yw'r "un cyfryngwr . . . rhwng Duw a dynion" (1Tim 2:5)

Dyma sut mae Iesu heddiw hefyd—yn llawn trugaredd a gras (Heb 4:14-16)

Mae e'n gwahodd pawb, beth bynnag fo'u gwreiddiau cenedlaethol neu ethnig, i'w ganlyn ef a phrofi budd ei ddysgeidiaeth (Math 11:28-30; 28:19, 20)

Wrth astudio'r Beibl fe welwn brif nodwedd gwir ganlynwyr Iesu heddiw [Darllen Ioan 13:34, 35; 17:25, 26]

Beth bynnag fo agwedd amlwg y byd, efelychu Iesu mae Tystion Jehofah gan weithredu cariad at ei gilydd (*g*98 10/22 6)

I dderbyn gobaith bywyd tragwyddol, rhaid inni astudio'r Beibl a dysgu rhagor am ran Iesu ym mwriad Duw [Darllen Ioan 20:31]

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodir ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)

© 2004 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir pob hawl